
| PWYLLGOR CYNLLUNIO | DYDDIAD: 11/01/2016 |
|---|---|
| ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO AC AMGYLCHEDD | DOLGELLAU |

**Rhif**: **5**

## Rhif y Cais / Application Number : C15-1128-44-LL

**Cynllun lleoliad ar gyfer adnabod y safle yn unig. Dim i raddfa.**
**Location Plan for identification purposes only. Not to scale.**



Cais Rhif: C15/1128/44/LL
Dyddiad Cofrestru: 22/10/2015
Math y Cais: Llawn - Cynllunio
Cymuned: Porthmadog
Ward: Gorllewin Porthmadog West

Bwriad: CAIS I GODI 4 BYNGALO DORMER DEULAWR NEWYDD
Lleoliad: CAE EITHIN, FFORDD MORFA BYCHAN, MORFA BYCHAN, PORTHMADOG, GWYNEDD, LL49 9JA

**Crynodeb o'r Argymhelliad:** CANIATAU GYDAG AMODAU

**1. Disgrifiad:**

1.1 Mae hwn yn gais llawn i godi 4 byngalo dormer newydd o fewn safle ehangach sydd eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth amlinellol ar gyfer datblygiad preswyl o 9 o dai. Mae 5 o'r 9 tŷ yma, sy'n cynnwys 3 tŷ fforddiadwy, eisoes wedi'u hadeiladu.

1.2 Mae'n safle gwastad oddimewn i ffiniau datblygu pentref Morfa Bychan ac sydd eisoes wedi ei baratoi ar gyfer ei ddatblygu, mae tai eraill a ganiatawyd fel rhan o ganiatâd blaenorol eisoes wedi cael eu codi ar ran arall o'r safle gan gynnwys tai fforddiadwy. Mae tai eraill o amrywiol faint a gorffeniad yn amgylchynu'r safle gyda ffordd gyhoeddus i flaen y safle gyda llecyn chwarae cyhoeddus gerllaw.

1.3 Mae'r bwriad yn dangos y bydd 4 tŷ yn cael eu codi ar wahân o fewn y safle. Byddai gan y tai lolfa, cegin/ystafell fwyta, ystafell wely, ystafell ymolchi a modurdy integredig ar y llawr daear gyda dwy ystafell wely ac ystafell ymolchi o fewn gofod y to. Oddi allan, bwriedir ymestyn y ffordd stad bresennol gyda mynedfeydd a llecynnau parcio unigol i flaen y tai gyda gerddi i'r cefn. O ran gorffeniad, fe fydd to o lechen naturiol a gorffeniad rendr llyfn i'r waliau.

1.4 Diwygiwyd y cais o'i gyflwyniad gwreiddiol trwy leihau lled ffordd y stad a chynnwys llecyn troi. O ganlyniad i hyn, mae'r 4 tŷ yn cael eu symud fwy 'ymlaen' gan roi pellter ychwanegol rhwng cefn y tai newydd a ffiniau tai presennol cyfagos. Golygir hyn hefyd fod maint gerddi cefn y tai newydd yn cynyddu.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Unedol.

**2.2 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:**

POLISI B22 - DYLUNIAD ADEILADAU - Hyrwyddo dyluniad adeiladau da drwy sicrhau fod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i ddiogelu nodweddion a chymeriad cydnabyddedig y dirwedd a'r amgylchedd lleol.

POLISI B23 – MWYNDERAU - Diogelu mwynderau'r gymdogaeth leol drwy sicrhau bod rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig a mwynderau'r ardal leol.

POLISI B25 - DEUNYDDIAU ADEILADU - Gwarchod cymeriad gweledol trwy sicrhau fod yn rhaid i ddeunyddiau adeiladu fod o safon uchel sy'n gweddu i gymeriad ac edrychiad yr ardal leol.

POLISI B27 - CYNLLUNIAU TIRLUNIO - Sicrhau fod cynigion a ganiateir yn ymgorffori tirlunio meddal/caled o safon uchel sy'n briodol ar gyfer y safle ac sy'n ystyried cyfres o ffactorau sy'n anelu i osgoi niwed i nodweddion cydnabyddedig.

POLISI B29 - DATBLYGIADAU AR DIROEDD DAN FYGYTHIAD LLIFOGYDD - Rheoli datblygiad penodol ym mharth llifogydd C1 a C2 a'u cyfeirio tuag at dir addas ym mharth A oni bai y gellid cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n berthnasol i nodweddion y safle a phwrpas y datblygiad.

POLISI B32 - YCHWANEGU AT DDWR WYNEB - Gwrthod cynigion na fyddant yn cynnwys mesurau lleihau llif neu fesurau lliniaru priodol fydd yn arwain at ostwng maint a graddfa'r dŵr wyneb fyddai'n cyrraedd ac yn llifo i afonydd a chyrsiau dŵr eraill.

POLISI C1 - LLEOLI DATBLYGIAD NEWYDD - Tir o fewn ffiniau datblygu trefi a phentrefi a ffurf ddatblygedig pentrefi gwledig fydd y prif ffocws ar gyfer datblygiadau newydd. Gwrthodir adeiladau, adeiladweithiau a chyfleusterau atodol newydd yng nghefn gwlad ar wahân i ddatblygiad sy'n cael ei ganiatáu gan bolisi arall yn y Cynllun.

POLISI CH4 - TAI NEWYDD AR SAFLEOEDD SYDD HEB EU DYNODI O FEWN FFINIAU DATBLYGU CANOLFANNAU LLEOL A PHENTREFI - Caniatáu cynigion i adeiladu tai newydd ar safleoedd sydd heb eu dynodi o fewn ffiniau Canolfannau Lleol a Phentrefi os gellir cydymffurfio â meini prawf syn anelu i sicrhau elfen fforddiadwy o fewn y datblygiad.

POLISI CH33 - DIOGELWCH AR FFYRDD A STRYDOEDD - Caniateir cynigion datblygu os gellir cydymffurfio gyda meini prawf penodol sydd yn ymwneud a'r fynedfa gerbydau, safon y rhwydwaith ffyrdd presennol a mesurau tawelu traffig.

POLISI CH36 - CYFLEUSTERAU PARCIO CEIR PREIFAT - Gwrthodir cynigion am ddatblygiadau newydd, ehangu datblygiadau presennol neu newid defnydd os na ddarperir lle i barcio cerbydau oddi ar y stryd yn unol â chanllawiau parcio cyfredol y Cyngor, gan roi ystyriaeth i hygyrchedd gwasanaeth cludiant cyhoeddus, y gallu i gerdded a beicio o safle a phellter y safle at faes parcio cyhoeddus.

**2.3 Polisïau Cenedlaethol:**

Polisi Cynllunio Cymru fersiwn 7 2014

NCT 12: Dylunio

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 Cais C14/0514/44/LL - codi tri tŷ fforddiadwy 3 ystafell wely - caniatawyd 16.10.14

3.2 Cais C13/0163/44/LL - codi 2 annedd ar wahân - caniatawyd 26.04.13

3.3 Cais C11/0862/44/AM - adnewyddu caniatâd cynllunio C05D/0444/44/AM ar gyfer codi 9 ty - caniatawyd 02.10.12

3.4 Cais C05D/0444/44/AM – adeiladu 9 ty newydd – caniatawyd 30.09.08

## 4. Ymgynghoriadau:

| | |
| --- | --- |
| Cyngor Cymuned/Tref: | Dim gwrthwynebiad |
| Uned Drafnidiaeth: | Nid oes gwrthwynebiad i'r bwriad yn ei ffurf ddiwygiedig.<br><br>Mae'r caniatâd amlinellol rhif C11/0862/44/AM eisoes yn cynnwys amodau a nodiadau perthnasol ar gyfer adeiladwaith a safon y ffordd ac felly awgrymir cynnwys amod safonol ychwanegol parthed darparu'r ffordd ddiwygiedig yn unol â'r cynlluniau diweddaraf. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru: | Dim gwrthwynebiad, cyngor safonol ynglŷn ag ystyriaethau bioamrywiaeth. |
| Dŵr Cymru: | Amodau a chyngor safonol |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Mae'r cyfnod hysbysebu gwreiddiol wedi dod i ben a derbyniwyd gohebiaeth yn gwrthwynebu ar sail:<br><br>• Effaith niweidiol difrifol ar fwynderau preswyl ar sail maint, dwysedd a lleoliad y datblygiad arfaethedig<br>• Gor-edrych, colli preifatrwydd, effaith gweledol gormesol<br>• Diffygion draenio/pryder o lifogydd<br>• Diffyg llecynnau chwarae<br>• Ddim yn gweddu gyda patrwm adeiledig presennol<br>• Ddim yn cyd-fynd gyda'r hyn a ganiatawyd<br>• Disgrifiad o fyngalo ddim yn gweddu gyda'r hyn a ddangosir<br>• Dim gofod mwynderol<br>• Codi mewn lefelau tir<br>• Colli golau<br><br>Yn ogystal â'r gwrthwynebiadau uchod derbyniwyd gwrthwynebiadau nad oedd yn wrthwynebiadau cynllunio dilys oedd yn cynnwys:<br><br>• Colli gwerth<br><br>Diwygiwyd y cais o'r hyn a gyflwynwyd yn wreiddiol. Ail hysbyswyd y diwygiad diweddaraf yn llawn, ac mae'r cyfnod ail ymgynghori yma yn dod i ben wedi paratoi'r adroddiad hwn a chyn dyddiad y Pwyllgor, ni dderbyniwyd sylw pellach ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. |

## 5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

### 5.1 Egwyddor y datblygiad

5.1.1 Mae egwyddor y bwriad yma wedi ei sefydlu yn flaenorol trwy ganiatáu cais amlinellol am 9 o dai. Mae 5 o'r tai hyn wedi eu hadeiladu ac mae 3 o'r rhain yn rhai fforddiadwy. Mae hyn yn ystyriaeth cynllunio faterol wrth ystyried y 4 ty sy'n ffurfio rhan o'r cais yma, er yn amlwg, bydd rhaid i unrhyw gais dilynol fodloni gofynion polisïau perthnasol eraill o fewn y cynllun unedol.

5.1.2 Lleolir safle'r cais o fewn ffin datblygu pentref Morfa Bychan. Fel y dengys uchod, mae gan y Cynllun Datblygu Unedol bolisi penodol sy'n berthnasol i godi tai ar safleoedd sydd heb eu dynodi o fewn canolfannau lleol a phentrefi ag o fewn ffiniau datblygu diffiniedig. Gan gymryd i ystyriaeth ei leoliad yn y pentref, ei raddfa a'r ddarpariaeth o unedau fforddiadwy (33%) sydd eisoes wedi eu cymeradwyo ar ran arall o'r safle, ni ystyrir fod y cais yn groes i bolisïau C1 a CH4 y CDUG.

### 5.2 Mwynderau gweledol

5.2.1 Lleolir y safle mewn ardal sydd yn gymysg o ran dyluniadau, gorffeniadau a meintiau tai. Ystyrir bod maint a lleoliad diwygiedig y datblygiad yma yn cyfleu i raddau llai, yr hyn sydd eisoes wedi ei ddatblygu ar y safle ac felly ei fod yn dderbyniol, nid oes felly wrthwynebiad i'r agwedd yma o'r cais.

5.2.2 Ystyrir bod y deunyddiau yn dderbyniol ac na fyddai'n amharu ar fwynderau gweledol yr ardal i raddau annerbyniol. Mae'r cais felly yn cydymffurfio gyda gofynion polisïau B22, B23 a B25 o'r CDU.

5.2.3 Bwriedir cynnwys amod yn gofyn am fanylion tirlunio i'w cyflwyno a'i chytuno a bydd unrhyw dirlunio yn cael ei warchod am gyfnod penodol er mwyn sicrhau y bydd mwynderau gweledol y safle yn cael ei gynnal i'r dyfodol. O wneud hyn, credir y bydd gofynion polisi B27 o'r CDU yn cael ei fodloni.

### 5.3 Mwynderau cyffredinol a phreswyl

5.3.1 Lleolir y safle mewn ardal ble mae tai preswyl yn nodweddiadol. Derbyniwyd gwrthwynebiadau i'r cynllun gan nodi nifer o bryderon gan gynnwys gor-edrych a cholli preifatrwydd.

5.3.2 Mae'r cynllun wedi ei ddiwygio o'i gyflwyniad gwreiddiol trwy leihau lled y ffordd sydd o ganlyniad yn golygu fod lleoliad y tai yn cael eu symud i ffwrdd o ffiniau cefn y safle ac felly i ffwrdd o'r tai preswyl presennol sydd yn ffinio gyda'r safle. Credir y bydd hyn yn lleihau pryderon gor-edrych a cholli preifatrwydd oherwydd y pellter ychwanegol sydd wedi ei ennill rhwng cefn y tai newydd a'r tai cyfagos presennol. Credir hefyd fod unrhyw bryder gan drigolion lleol am golled o olau a allai ddigwydd, (er nad oedd sicrwydd fod hyn am ddigwydd fel y cyflwynwyd y cais yn wreiddiol) yn cael ei leihau trwy gynyddu'r pellter rhwng y tai arfaethedig a'r tai presennol.

5.3.3 Mae pryderon wedi eu hamlygu o ran ffurf yr adeiladau a'r ffaith mai byngalo dormer a geisir a dim byngalo cyffredin. Golygai byngalo dormer fod gofod yn cael ei greu o fewn y to er mwyn darparu ystafelloedd ac wrth gwrs yn dilyn hyn, ffenestri yn y to. Ni chredir fod ffurf ffenestri 'velux' yn y to yn golygu y gall gor-edrych difrifol ddigwydd oherwydd eu huchder o fewn y to. Mae'r diwygiad yn lleoliad y tai hefyd

wedi cynorthwyo i symud y tai newydd ymhellach i ffwrdd o'r tai presennol cyfochrog ac felly lleihau cyfleon gor-edrych gwirioneddol. Ni chredir y byddai'r lefelau fel y dangosir yn annerbyniol ac na fyddai hyn yn golygu ardrawiad sylweddol ar fwynderau cyffredinol a phreswyl yr ardal. Er hynny, bwriedir cynnwys amod ffurfiol yn gofyn am gyflwyno manylion er mwyn sicrhau fod yr elfen yma yn dderbyniol.

5.3.4 Mae cynnydd ym maint y gerddi cefn o ddiwygio lleoliad y tai eu hunain, cydnabyddir nad yw hyn yn creu gerddi enfawr, ond mae gofod mwynderol ychwanegol yn cael ei greu. Gwelir hefyd fod y safle yn ymylu gyda chae chwarae cyhoeddus presennol ac felly ni chredir na fyddai cyfleon chwarae digonol ar gael i blant o fewn y stad a thiroedd cyfochrog.

5.3.4 Ystyrir felly fod y cais yn ei ffurf ddiwygiedig yn cydymffurfio gyda gofynion polisi B23o'r CDU.

5.4 **Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.4.1 Nid oedd gan yr Uned Drafnidiaeth unrhyw wrthwynebiad i'r bwriad yn ei ffurf ddiwygiedig gan fod y ddarpariaeth barcio yn cael ei ystyried yn ddigonol i dai o'r maint yma. Awgrymir cynnwys amod parthed darparu'r ffordd ddiwygiedig yn unol â'r cynlluniau diweddaraf. Ni ystyrir felly fod y bwriad yn groes i ofynion polisi CH33 a CH36 o'r CDU.

5.5 **Hanes cynllunio perthnasol**

5.5.1 Fel y nodwyd eisoes, ystyrir fod egwyddor datblygiad preswyl y safle yma eisoes wedi cael ei sefydlu a bod yr hyn a fwriedir yma yn unol â'r hyn a amlinellwyd yn y cais blaenorol.

5.6 **Materion Llifogydd**

5.6.1 Mae cyfeiriad wedi ei wneud yn y sylwadau a dderbyniwyd i'r mater o ddatblygu'r safle ymhellach ble fyddai yn cynyddu risg llifogydd i dai presennol cyfagos. Ni dderbyniwyd gwrthwynebiad i'r bwriad gan yr asiantaethau perthnasol sef Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru, credir felly fod yr hyn a fwriedir o ran trefniant draenio'r safle a'i leoliad yn dderbyniol ac na fyddai oherwydd hynny yn groes i ofynion polisïau B29 a B32 o'r CDU.

5.7 **Yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus**

5.7.1 O ganlyniad i'r ymatebion a dderbyniwyd, diwygiwyd y cais trwy symud y tai arfaethedig i ffwrdd o ffin y safle ac felly ymhellach o dai presennol cyfochrog. Rhoddwyd ystyriaeth lawn i'r holl faterion cynllunio perthnasol a godwyd wrth benderfynu'r cais hwn fel y nodir uchod.

5.7.2 Ni chredir y byddai'r tai sydd yn destun y cais yma yn amharu ar fwynderau'r gymdogaeth leol i raddau cwbl annerbyniol. Mae caniatâd eisoes wedi ei roi ar gyfer cyfanswm datblygiad o 9 tŷ Newydd, mae 5 eisoes wedi eu caniatáu, gyda 2 yn cael eu preswylio ynddynt tra bod y tair uned fforddiadwy fwy neu lai wedi eu cwblhau. Mae'r cais yma yn cwblhau'r hyn sydd eisoes wedi ei dderbyn a'i gymeradwyo.

**6. Casgliadau:**

6.1 O ystyried yr uchod ac wedi ystyried yr holl faterion perthnasol gan gynnwys polisïau a chanllawiau lleol a chenedlaethol yn ogystal â hanes cynllunio'r safle, credir fod y cais yma i godi pedwar byngalo dormer yn dderbyniol a'i fod yn bodloni gofynion y polisïau a nodir uchod.

**7. Argymhelliad:**

7.1 Caniatau – amodau

1. Amser
2. Cydymffurfio gyda chynlluniau
3. Deunyddiau/llechi
4. Tirlunio
5. Priffyrdd
6. Draenio
7. Manylion lefelau lloriau gorffenedig
8. Nodyn wal rannol